cwmpas

# Gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd

## Adroddiad effaith blynyddol

2024-25













# Cynnwys

01
Croeso

02
Pwy ydym ni

03
Ein blwyddyn mewn rhifau

05
Creu economi decach a gwyrddach

13
Creu cymdeithas fwy cyfartal

24
Gyrru newid cadarnhaol

29
Diolch

# Croeso



**Bu eleni'n flwyddyn arall a ddiffiniwyd gan newid cyson, o fewn Cwmpas ac yn y byd o'n hamgylch. Mae newidiadau gwleidyddol, ansicrwydd o ran cyllid ar gyfer y dyfodol, a chyflymder newidiadau technolegol wedi cyflwyno heriau a chyfleoedd newydd, ac mae newidiadau mewnol wedi galw am hyblygrwydd ac ystwythder yn ein hymateb.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, diolch i ymroddiad ein tîm a chryfder ein partneriaethau, rydym wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen dybryd am economi decach a gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal.

Drwy gyfres o ddigwyddiadau a chynadleddau, rydym wedi cysylltu â chymunedau, partneriaid a llunwyr polisïau, gan greu lle i drafod yr heriau cymhleth a lluosog sy'n wynebu cymunedau, a'r datrysiadau a all wneud gwahaniaeth.

Mae ein hamrywiaeth o raglenni effeithiol ledled Cymru wedi helpu i fynd i'r afael â'r anghenion a'r heriau unigryw y mae gwahanol gymunedau yn eu hwynebu. Mae Busnes Cymdeithasol Cymru wedi parhau i ddarparu cymorth i fentrau cymdeithasol sy'n datblygu ac yn tyfu, ac mae Cymunedau Digidol Cymru wedi helpu i sicrhau cynhwysiant digidol ledled y wlad. Rydym wedi cefnogi mentrau tai a gofal dan arweiniad y gymuned, ac wedi darparu cefnogaeth gynnar mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi. Gan weithio mewn partneriaeth, rydym wedi parhau i gefnogi'r sector cymdeithasol i ddatblygu, gan feithrin arweinyddiaeth trwy Arweinwyr Cymdeithasol Cymru, a chynyddu capasiti digidol. Rydym wedi darparu gwasanaethau ymgynghori effeithiol iawn, gyda ffocws ar sefydlu gwerth cymdeithasol, cydweithredu ac arloesedd.

Llwyddom i sicrhau buddsoddiad newydd er mwyn ehangu ein heffaith, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen entrepreneuriaeth gymdeithasol i bobl ifanc, a chymorth arbenigol i fusnesau'r sector preifat sy'n pontio i fodelau newydd o dan ddiwygiad gan Lywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal.

Gan edrych i'r dyfodol, yn unol â llawer o sefydliadau eraill, rydym yn parhau i lywio ansicrwydd gan ganolbwyntio ar gyfleoedd i gyflawni newid effeithiol pellach ar adeg pan mae ei angen fwyaf ar bobl a chymunedau. Rydym yn dechrau deall yn llawn a harneisio potensial deallusrwydd artiffisial mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar bobl, ac rydym yn parhau i ymrwymo i addasu'n effeithiol a dal ati i gyflawni effaith ystyrlon.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth ar gyfer economi decach a gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal, rydym eisiau cysylltu â chi. P'un a oes gennych ddiddordeb mewn dod yn bartner i ni, cyllido ein gwaith, neu ddysgu mwy am yr hyn a wnawn, mae llawer o ffyrdd y gallwch gymryd rhan a'n cefnogi. Gyda'n gilydd, gallwn wneud i newid cadarnhaol ddigwydd.

Bethan Webber

**Prif Weithredwr**
**Cwmpas**

# Pwy ydym ni

## Mae Cwmpas yn gweithio o fewn cymunedau ledled Cymru i helpu i adeiladu economi decach a gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal.

A ninnau'n gwmni cydweithredol, credwn y dylai ein heconomi a'n cymdeithas weithio'n wahanol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, gyda rhagor o fusnesau yn defnyddio eu helw er lles, a phob cymuned yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i lunio eu dyfodol eu hunain.

Rydym yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol a datrysiadau cydweithredol ac yn cefnogi cymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i wella ac arloesi wrth gynnig cyngor busnes arbenigol, cymorth busnes cymdeithasol, cynhwysiant digidol, datrysiadau dan arweiniad y gymuned ym meysydd tai a gofal, ac ystod o wasanaethau dysgu, datblygu ac ymgynghori.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar dri nod craidd:

- Creu economi decach a gwyrddach
- Creu cymdeithas fwy cyfartal
- Gyrru newid cadarnhaol

## Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio:

| Bod yn gydweithredol | Bod yn gefnogol | Bod yn deg | Bod yn onest | Bod yn gadarnhaol | Bod yn ysbrydoliaeth |
|---|---|---|---|---|---|

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae ein gwaith yn alinio'n agos ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth sefydlu cynaliadwyedd, cynhwysiant a meddwl hirdymor ym mhopeth a wnawn, rydym yn cyfrannu at greu cymdeithas decach a mwy cydnerth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r symbolau cyfatebol i amlygu sut mae ein gwaith yn cefnogi saith nod llesiant y Ddeddf yn weithredol, gan ddangos ein hymrwymiad i greu Cymru sy'n iachach, yn fwy cyfartal ac yn gyfrifol ar lefel fyd-eang – yn awr ac ar gyfer y dyfodol.



Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

# Ein blwyddyn mewn rhifau

**£6,991,870** o drosiant a gynhyrchwyd drwy incwm dan gontract a grantiau.

**113** o fentrau cymdeithasol newydd wedi'u cefnogi gan ymgorfforiad.

**458** o fentrau cymdeithasol wedi derbyn cymorth cyngor busnes.

**10** o fusnesau preifat wedi'u cynorthwyo i drawsnewid yn llwyddiannus i fusnesau sy'n eiddo i weithwyr.

**100** o fusnesau cymdeithasol wedi'u cynorthwyo i hybu eu hamcanion datblygu cynaliadwy.

**£1,582,706** wedi'i godi drwy gynlluniau cyfranddaliadau cymunedol.

**7** o grwpiau a sefydliadau wedi'u cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol.

**94** o fusnesau cymdeithasol wedi cael cymorth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i helpu i greu gweithleoedd mwy cynhwysol, cyfartal ac amrywiol.

**68,461** o bobl wedi'u cynorthwyo i fynd ar-lein drwy Cymunedau Digidol Cymru.

**1,674** o staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi gan Cymunedau Digidol Cymru i ddysgu sgiliau digidol.

**£156,961** wedi'i ddyfarnu i grwpiau sy'n cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith i osod eu syniadau ar gyfer mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a thai ar lwybr carlam.

**318** o gartrefi ar y gweill ar gyfer tai dan arweiniad y gymuned.

**47** o grwpiau a sefydliadau wedi'u cynorthwyo i ddatblygu eu prosiectau Tai dan Arweiniad y Gymuned.

**561** o bobl wedi cymryd rhan yn ein digwyddiadau hacathon cymdeithasol.

**86%** o'r staff wedi dweud y byddent yn argymell Cwmpas fel lle gwych i weithio.

**82%** o'r staff wedi dweud bod gweithio i Cwmpas yn destun balchder iddynt.

# Creu economi decach a gwyrddach

Wrth ddarparu cyngor busnes arbenigol, cymorth busnes cymdeithasol, a hyrwyddo perchnogaeth gymunedol neu gan weithwyr, rydym yn gweithio i greu dyfodol lle mae mwy o fusnesau yn defnyddio eu helw er lles a lle gall cymunedau ffynnu oherwydd mwy o gyfleoedd cyflogaeth a chyfoeth lleol.



# Tyfu sector mentrau cymdeithasol Cymru

**Mae Busnes Cymdeithasol Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynir gan ein tîm o gynghorwyr arbenigol, yn darparu cymorth teilwredig i fentrau cymdeithasol ar bob cam o'u datblygiad, o gychwyn busnes hyd at eu twf, gan eu grymuso i gryfhau eu heffaith economaidd a chymdeithasol.**

Wedi cefnogi

**458**

o fentrau cymdeithasol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Busnes Cymdeithasol Cymru wedi parhau i chwarae rhan hanfodol mewn meithrin economi decach, gwyrddach a mwy cynhwysol yng Nghymru. Drwy ein cefnogaeth ymroddedig i fentrau, rydym wedi grymuso busnesau cymdeithasol i ffynnu, arloesi ac arwain newid yn eu cymunedau.

Rydym wedi cefnogi ymgorfforiad llwyddiannus 113 o fentrau cymdeithasol newydd, gan helpu i dyfu economi Cymru a arweinir gan ddibenion, a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer cyfranogiad economaidd cynhwysol.

I ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, rydym hefyd wedi darparu cymorth targedig i helpu 100 o fusnesau cymdeithasol i gyflymu eu huchelgeisiau o ran cynaliadwyedd, gan ddarparu arweiniad ymarferol ar bolisi amgylcheddol, gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, ac integreiddio arferion cynaliadwy i weithrediadau beunyddiol.

Rydym hefyd wedi darparu cymorth teilwredig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i 94 o fusnesau cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi datblygiad strwythurau llywodraethu cynhwysol, polisïau teg, ac ymgysylltiad cymunedol cryfach, gan helpu i ysgogi newid ystyrlon a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ar draws y sector.

# Cefnogi pobl ifanc sy’n gadael gofal

> Mae ein sgôr gwerth effaith gymdeithasol yn rhoi syniad da o’r effaith economaidd a chymdeithasol y mae Sunflower Lounge yn ei chael a pha mor werthfawr ac angenrheidiol ydyw i’n criw bach, ac i Gymru.

Ar ôl plentyndod trawmatig, llwyddodd Helen Davies i oresgyn syndrom y ffugiwr a hunanamheuaeth, a chreu Sunflower Lounge, sef lle diogel i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd a phobl ifanc sy’n gadael gofal.

Mae Sunflower Lounge yn fenter gymdeithasol yng Nghastell-nedd sy’n meithrin pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl ifanc sy’n gadael gofal, a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd. Mae llawer o’r bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal y mae Helen yn gweithio â nhw wedi wynebu cyfnodau anodd iawn wrth iddynt adael gofal yn ystod Covid, gan gael eu lletya’n aml mewn ardaloedd nad oeddent yn eu hadnabod, heb lawer o system gymorth neu ddim o gwbl, a heb lawer o sgiliau i’w helpu i fyw’n annibynnol.

Ar ôl wynebu heriau iechyd meddwl, unigrwydd ac ynysigrwydd wrth syrffio soffas a brwydro i oroesi, mae’r bobl ifanc hyn wedi canfod bod Sunflower Lounge yn gymorth hanfodol.

Mae Cwmpas wedi cefnogi Helen a Sunflower Lounge mewn amrywiaeth o feysydd busnes: o gyngor ar sefydlu a rhedeg menter gymdeithasol, i gefnogaeth wrth wneud ceisiadau am gyllid, cyngor ar gynhwysiant digidol, a chefnogaeth gan dîm ‘Cymunedau’n Creu Cartrefi’ Cwmpas.

Gyda’n cymorth ni, dysgodd Helen sut i fesur gwerth effaith gymdeithasol mewn digwyddiad gan Cwmpas a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae wedi cyfrifo bod gwerth effaith gymdeithasol Sunflower Lounge yn swm enfawr o £25.93 am bob £1 a fuddsoddir.



# Diogelu dyfodol busnesau

**Drwy raglen Busnes Cymdeithasol Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae ein tîm Perchnogaeth gan y Gweithwyr yn darparu cymorth arbenigol teilwredig i berchnogion busnesau sy'n archwilio olyniaeth drwy berchnogaeth gan y gweithwyr. Cyflwynir hyn gan dîm o ymgynghorwyr profiadol, ac mae'r cymorth yn helpu i ddiogelu swyddi, cadw cyfoeth lleol, a sicrhau dyfodol hirdymor busnesau ledled Cymru.**

Mae perchnogaeth gan y gweithwyr yn strategaeth olyniaeth brofedig sy'n darparu manteision masnachol cryf ac yn amddiffyn buddiannau hirdymor y busnes.

Yn wahanol i werthu i gystadleuydd neu brynwr allanol, sy'n gallu arwain at golli swyddi, gwanhau brand, neu newidiadau gweithredol mawr, mae newid i berchnogaeth gan y gweithwyr yn cynnig dewis arall a arweinir gan werthoedd. Mae'n sicrhau etifeddiaeth y perchennog sy'n gadael, yn grymuso gweithwyr, ac yn helpu i sicrhau parhad a gwydnwch y busnes ar gyfer y dyfodol.

**Wedi cynorthwyo**

**10**

**busnes i berchnogaeth gan y gweithwyr**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm wedi parhau i hyrwyddo perchnogaeth gan y gweithwyr fel opsiwn olyniaeth pwerus ac ymarferol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi denu 70 o ymholiadau newydd ac wedi galluogi ein hymgynghorwyr i gefnogi dros 50 o fusnesau ar eu taith ym maes perchnogaeth gan y gweithwyr. O ganlyniad, mae 10 busnes wedi llwyddo symud i berchnogaeth gan y gweithwyr, ac mae rhagor ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r gwaith hwn wedi diogelu 260 o swyddi, gan gynnal bywoliaeth sy'n hanfodol i gymunedau lleol ac economi ehangach Cymru.



> **"Mae Cwmpas wedi'n cynghori a'n llywio bob cam o'r ffordd wrth sefydlu Canolfan Filfeddygol Archway fel busnes sy'n eiddo i'r gweithwyr, gan ddal cyfranddaliadau ar ran gweithwyr presennol a gweithwyr y dyfodol, a sicrhau bod dyfodol y practis mewn dwylo diogel."**

# Sicrhau'r dyfodol ac aros yn driw i werthoedd

> **Mae pawb ohonom yn rhan o'r fenter ac mae'n gallu teimlo ein bod ni'n rhan o rywbeth arbennig. Gyda phawb yn tynnu i'r un cyfeiriad, gallwn rannu'r llwyddiant a rhoi ein barn ar y ffordd y mae pethau'n cael eu rhedeg.**

Mae Gwasg Pia, sef cwmni argraffu hygyrch sydd wedi'i leoli yng Nghwmbrân, wedi gweithredu â chenhadaeth gymdeithasol gref erioed. Ar ôl cael ei sefydlu fel busnes cysodi a oedd yn dylunio a chynhyrchu platiau argraffu, bu newid cyfeiriad i Gwasg Pia wrth gyhoeddi llawlyfr braille ar gyfer un o raglenni BBC Radio 4, ac yn ddiweddarach, bu'n datblygu Braille Maker, sef y brif feddalwedd cyfieithu Braille yn y DU.

Penderfynodd y perchennog, Sharon Williams, y byddai dod yn eiddo i'r gweithwyr yn ffordd o sicrhau dyfodol y cwmni, gan ddychwelyd i'w wreiddiau yn y mudiad cydweithredol. Yn 53 oed, a heb unrhyw gynlluniau i adael y busnes, roedd hi'n awyddus i sicrhau bod y newid i berchnogaeth gan y gweithwyr yn cael ei gadarnhau'n briodol cyn iddi ystyried lleihau ei horiau gwaith neu ymddeol, sef rhywbeth nad oedd hi'n rhagweld y byddai'n digwydd am flynyddoedd lawer i ddod.

Cefnogwyd Pia drwy gydol y broses gan y tîm Perchnogaeth gan y Gweithwyr yn Cwmpas, a arweiniodd Sharon a staff Pia drwy newid strwythur y busnes, ac yn bwysicach fyth, newid meddylfryd a'r dull gweithredu sydd ei angen wrth ddod yn berchnogion sy'n weithwyr.

Mae'r newid i berchnogaeth gan y gweithwyr wedi sicrhau dyfodol y busnes wrth ddiogelu swyddi a grymuso'r gweithwyr, gan aros yn driw ar yr un pryd i'w werthoedd craidd o arwain drwy esiampl a chyfrannu at gymdeithas.



# Darparu cymorth busnes lleoledig

**Gyda chyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, comisiynwyd Cwmpas gan saith awdurdod lleol (sef Caerffili, Gwynedd, Ynys Môn, Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro) i ddarparu cymorth busnes teilwredig o dan flaenoriaeth fuddsoddi "Cefnogi Busnesau Lleol".**

Mae ein cefnogaeth, a ddarparwyd yn unol â strategaethau lleol ac mewn cydweithrediad agos â grwpiau cymunedol a rhwydweithiau busnes, wedi sicrhau bod y cyllid yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac yn cyfrannu at wydnwch economaidd hirdymor.

> **Cyn cwrdd â chi, roeddem yn ansicr ynghylch sut i symud ymlaen. Bellach, rydym yn hyderus y gallwn lwyddo, gyda'ch cefnogaeth chi, a pharhau i gefnogi ein cymunedau fel y bwriadwyd**

Mae ein tîm wedi darparu ymyriadau targedig, sy'n seiliedig ar le, i fusnesau cymdeithasol ledled yr ardaloedd amrywiol hyn, gan helpu i ysgogi menter, meithrin arloesedd, a chryfhau gwydnwch economaidd mewn cymunedau gwledig a threfol, wrth ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

## Menter a Chychwyn Busnes

Rydym wedi darparu cymorth â ffocws i fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu, yn enwedig yng Ngheredigion, Powys, a Sir Gaerfyrddin, sef rhanbarthau lle mae microfusnesau'n chwarae rhan hanfodol yn yr economi leol. Mae ein canllawiau cyn cychwyn wedi helpu i feithrin entrepreneuriaeth a datgloi potensial lleol.

## Mentrau Gwledig ac Arfordirol

Yn Sir Benfro, Gwynedd, Ynys Môn, a Sir Gâr, buom yn gweithio gyda busnesau mewn sectorau hanfodol fel twristiaeth, amaethyddiaeth, bwyd, a diwydiannau morol, gan gryfhau asgwrn cefn yr economïau gwledig ac arfordirol hyn.

## Adfywio Canol Trefi

Yng Nghaerffili a Sir Gaerfyrddin, buom yn cefnogi diwydiannau creadigol, manwerthwyr annibynnol, a mentrau dan arweiniad y gymuned, i helpu i ddod â bywyd newydd i strydoedd siopa lleol ac ysgogi adnewyddiad canol trefi.

## Tegwch, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chynaliadwyedd

Ledled pob un o'r saith ardal awdurdod lleol, rydym wedi darparu cymorth i helpu busnesau i ymgorffori tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gweithrediadau, ynghyd â chyngor ymarferol ar wella effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd amgylcheddol.

## Mentrau Cymdeithasol a'r Economi Sylfaenol

Rydym wedi darparu cefnogaeth deilwredig i fentrau cymdeithasol sy'n gweithredu mewn sectorau sylfaenol fel gofal, bwyd a thai, yn enwedig yng Ngheredigion, Powys, Caerffili a Sir Gaerfyrddin, gan helpu i adeiladu economïau lleol cryfach a mwy gwydn.

# Cymorth hanfodol wrth wraidd y gymuned

> Mae'r gefnogaeth gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi bod o gymorth mawr, gan fynd â ni o statws elusennol i fod yn fenter gymdeithasol. Roedd arnom angen taer am gymorth er mwyn sicrhau bod gennym afael cadarn ar faterion llywodraethu.

Mae'r Borth, a saif saith milltir i'r gogledd o Aberystwyth, yn wynebu heriau unigryw. Mae'r ardal oddi ar y grid heb fynediad at nwy o'r prif gyflenwad, sy'n arwain at gostau byw uwch oherwydd costau tanwydd a chludiant bwyd. Mae llawer o'r trigolion yn bobl hŷn, ac mae rhai yn byw heb deulu agos gerllaw, sy'n cynyddu teimladau o ynysigrwydd.

Sefydlwyd Hwb Cymunedol y Borth yn 2007, ac mae'n darparu gwasanaethau cynhwysol sy'n hyrwyddo iechyd, lles a chysylltiadau ar draws pob grŵp oedran. Mae'r caffi 'talu'r hyn y gallwch' yn croesawu pawb, ni waeth beth fo'u gallu i dalu. Mae canolfan deuluol, clwb ieuenctid a gweithgareddau ar gyfer pobl hŷn yn sicrhau bod pob cenhedlaeth yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae sied y dynion yn fan croesawgar i gyfarfod, siarad a dysgu.

Gyda chefnogaeth gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae Cwmpas wedi helpu'r Hwb i drawsnewid o statws elusen i statws menter gymdeithasol, gan sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor. Yn ogystal, bu Cwmpas yn rhoi cyngor ar ddod o hyd i gyllid cynaliadwy, ac yn helpu i ddatblygu polisïau craidd, gan gynnwys polisïau yn ymwneud ag adnoddau dynol, hyfforddiant staff, y Gymraeg, gweithio hyblyg, a strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r Hwb yn chwarae rhan allweddol mewn meithrin sgiliau a hyder. Mae'n darparu profiad gwaith i fyfyrwyr o Goleg Ceredigion ac ysgolion lleol. Roedd un gwirfoddolwr, a fu'n ddi-waith yn hirdymor, wedi dechrau mynychu sied y dynion, aeth ymlaen i wirfoddoli, ac mae bellach mewn cyflogaeth â thâl.



# Perchnogaeth gymunedol ar waith

**I gymunedau sy'n wynebu heriau economaidd a newid cymdeithasol, mae cymorth gan Cwmpas o'r dechrau i'r diwedd wrth sefydlu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol yn helpu i ddod â phobl ynghyd i gymryd perchnogaeth ar y cyd, gan eu galluogi i lunio eu dyfodol eu hunain, ymateb i anghenion lleol, a buddsoddi yn y pethau sydd bwysicaf iddynt.**

Mae ein hymgynghorwyr busnes yn gweithio'n agos gyda grwpiau i ddarparu gwasanaeth cyflawn, o'r syniad cyntaf i ymgorfforiad llawn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned, drafftio dogfennau hanfodol, lansio'r cynnig, a darparu cefnogaeth barhaus ymhell ar ôl lansio.

Enghraifft bwerus o'n cefnogaeth o ran helpu cymunedau i adennill asedau hanfodol yw hanes Cwmni Buddiant Cymunedol Ffarm Ofal Clynfyw ym mhentref Aber-cuch, Sir Benfro. Ers ei sefydlu yn 2011, mae'r Ffarm Ofal wedi darparu amgylchedd diogel a chefnogol i unigolion agored i niwed. Fodd bynnag, roedd ei dyfodol hirdymor mewn perygl, gan fod y tir yr oedd yn gweithredu arno ar les gan deulu lleol, ac roedd hyn yn creu ansicrwydd ynghylch ei gynaliadwyedd.


Er mwyn sicrhau ei dyfodol, crëwyd Cymdeithas Budd Cymunedol (CBC) Clynfyw i godi arian i brynu'r tir a'i gadw fel ased cymunedol. Byddai hyn yn gwneud y CBC yn landlord moesegol sy'n rhoi'r tir yn ôl ar les i'r Ffarm Ofal. O'r ansicrwydd hwn, daeth y syniad o sefydlu CBC Clynfyw i godi'r arian i brynu'r tir a'i gadw ar gyfer y gymuned am byth. Byddai'r CBC yn gweithredu fel landlord moesegol ac yn rhoi'r tir ar les i'r Ffarm Ofal.

Ar ôl blynyddoedd o gynllunio, lansiwyd cynnig cyfranddaliadau cymunedol a gaeodd ym mis Mai 2024, gan godi £367,450. Yn ogystal, sicrhaodd Clynfyw grantiau gan y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol a Llywodraeth Cymru. Ym mis Mawrth 2025, cwblhawyd pryniant y tir. Bellach, CBC Clynfyw yw'r landlord moesegol, ac mae'n diogelu cenhadaeth y Ffarm Ofal i gefnogi unigolion agored i niwed.



# Creu cymdeithas fwy cyfartal

Mae ein gwasanaethau cynhwysiant digidol, tai dan arweiniad y gymuned, a gofal ataliol, yn helpu i leihau anghydraddoldeb iechyd ac ariannol, yn mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd, yn gwella iechyd a lles, ac yn grymuso cymunedau i lunio eu dyfodol eu hunain a chael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.



# Grymuso cymunedau drwy gynhwysiant digidol

**Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Cymunedau Digidol Cymru (CDC), sef rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynir mewn partneriaeth â Good Things Foundation, wedi helpu i leihau allgáu digidol a meithrin hyder digidol ledled Cymru.**

Mae CDC wedi cefnogi cynhwysiant digidol ar draws sectorau allweddol gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, pobl hŷn, cymunedau lleiafrifoedd ethnig, a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol a chenedlaethol, mae CDC wedi helpu staff rheng flaen a gwirfoddolwyr i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau digidol.

Wedi cynorthwyo

**68,461**

o bobl i fynd ar-lein drwy CDC

Rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau am ddim sydd wedi'u cynllunio i feithrin hyder a galluedd digidol. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau pwrpasol, archwiliadau sgiliau digidol manwl, hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr, rhaglenni Hyrwyddwyr Digidol, a rhoi dyfeisiau digidol ar fenthyg, megis llechi, gliniaduron, unedau MiFi, a thechnoleg glyfar.

Yn ogystal, mae CDC yn hyrwyddo arferion gorau drwy Siarter Cynhwysiant Digidol Cymru, ac mae'n ysgogi gweithredu ar y cyd drwy Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, sef rhwydwaith o dros 100 o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i wneud Cymru'n ddigidol gynhwysol.

# Cymorth digidol teilwredi

> **Mae'n golygu mwy na dim ond darparu dyfeisiau neu fynediad i'r rhyngrwyd. Mae hefyd yn grymuso unigolion i ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn ddiogel, yn hyderus, ac mewn ffordd sy'n gwella ansawdd eu bywyd.**

Mae Pont Digidol yn brosiect peilot cynhwysiant digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad Cwmpas ac mewn partneriaeth â Tai Gogledd Cymru. Cafodd ei gynllunio i bontio'r bwlch digidol i bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Gyda chyllid gan raglen y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol Llywodraeth Cymru, roedd y prosiect yn anelu at wneud mwy na dim ond addysgu pobl ar sut i ddefnyddio llechen neu ffôn, gan feithrin hyder, cysylltiadau ac annibyniaeth.

I lawer o gyfranogwyr, roedd y rhyngrwyd wedi teimlo fel rhywbeth roedd "pobl eraill" yn ei ddefnyddio, yn rhy gymhleth, yn rhy beryglus, neu ddim ar eu cyfer nhw. Ond mewn sesiynau cyfeillgar, anffurfiol a gynhaliwyd yn Llys y Coed a chynlluniau tai eraill, creodd y prosiect ofod lle'r oedd pobl yn teimlo'n ddiogel i holi cwestiynau, gwneud camgymeriadau, a dysgu ar eu cyflymder eu hunain.

Ac nid oedd Pont Digidol yn ymwneud â sgiliau digidol yn unig. Roedd hefyd yn ymwneud â lleihau unigrwydd. Sbarduno sgwrs. Atgoffa pobl eu bod yn gallu dysgu rhywbeth newydd, ni waeth beth fo'u hoedran. Daeth y sesiynau yn fwy na hyfforddiant, daethant yn ddigwyddiadau cymdeithasol lle'r oedd trigolion yn creu cysylltiadau drwy'r heriau a oedd yn gyffredin iddynt, ac yn dathlu buddugoliaethau bach gyda'i gilydd. Aeth yr effaith y tu hwnt i unigolion.

Drwy'r prosiect, cafodd Tai Gogledd Cymru ddealltwriaeth ddyfnach o'r rhwystrau digidol y mae eu preswylwyr yn eu hwynebu, a'r ffordd y gall pobl ffynnu gyda'r gefnogaeth gywir. Bellach, mae'r dysgu hwn yn llunio'r ffordd y mae gwasanaethau digidol y dyfodol yn cael eu cynllunio a'u darparu.



# Pontio'r bwlch digidol

**Mae cynllun Hyder Digidol Sir Ddinbych, a gaiff ei gynnal gan Cwmpas a'i ariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn helpu pobl i feithrin yr hyder a'r sgiliau i lywio drwy'r byd digidol.**

Mae Hyder Digidol Sir Ddinbych yn cynnig cefnogaeth un-i-un, sesiynau galw heibio cyfeillgar, neu weithdai ymarferol sy'n ymdrin â phynciau fel diogelwch ar-lein, llythrennedd iechyd digidol, a dechrau defnyddio dyfais.

Drwy'r rhaglen, mae gan gyfranogwyr fynediad hefyd i Gyrsiau Sgiliau Digidol Hanfodol a Gweithdai Rhifedd Digidol Lluosi (Multiply), sy'n canolbwyntio ar gymwysiadau ymarferol fel cyllidebu ar-lein a rheolaeth ariannol.

I'r sawl sydd heb ddyfeisiau digidol, mae Hyder Digidol Sir Ddinbych yn darparu mynediad at liniaduron, llechi a ffonau clyfar drwy atgyfeiriadau gan sefydliadau cyhoeddus neu drydydd sector.

**Wedi cefnogi**
**132**
**i ennill cymhwyster neu gwblhau cwrs ar ôl cael cefnogaeth**

Mae'r cynllun yn targedu grwpiau megis oedolion hŷn, unigolion ag anableddau, pobl mewn ardaloedd gwledig, a phobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, ac rydym wedi cydweithio â phartneriaid lleol gan gynnwys Cyngor Sir Dinbych, llyfrgelloedd, cymdeithasau tai, a chanolfannau cymunedol, i sicrhau cefnogaeth gynhwysfawr ledled y sir.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi 132 o unigolion i ennill cymhwyster neu gwblhau cwrs. Yn dilyn cefnogaeth gennym, bu 470 o bobl yn cymryd rhan mewn cymorth sgiliau bywyd, a bu 36 o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu sgiliau rhifedd.




**"Dwi'n meddwl ei fod yn syniad rhagorol. Dwi wedi fy synnu, oherwydd credwn fod pawb arall yn gwybod beth i'w wneud."**

# Gwella iechyd a lles gofalwyr

**Mae Cysylltu Gofalwyr yn darparu cymorth i bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd eisiau sefydlu neu redeg gwasanaethau lles mewn ffordd fwy cydweithredol, cydweithiol a chynhwysol.**

Rhwng mis Mehefin 2024 a mis Mai 2025, bu Cwmpas yn gweithio mewn partneriaeth ag elusen Celfyddydau Cymunedol Tanio i wireddu prosiect Cysylltu Gofalwyr, sef menter a gynlluniwyd i gefnogi gofalwyr di-dâl ledled Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ei hanfod, mae'r prosiect yn ymateb i argyfwng cynyddol o ran iechyd a lles gofalwyr. Mae canfyddiadau anodd yr adroddiad Cyflwr Gofalu 2024 gan Gofalwyr Cymru yn glir ynghylch yr hyn a wyddai llawer eisoes: mae gofalwyr di-dâl yn wynebu heriau cynyddol megis iechyd meddwl gwael, straen ariannol, a diffyg cefnogaeth gan wasanaethau ffurfiol.

Mae Cysylltu Gofalwyr yn cynnig mwy na grŵp cymorth yn unig. Mae'n gynulliad wythnosol lle gall gofalwyr ddod at ei gilydd mewn lle diogel a deallgar, am y tro cyntaf i rai, i gymryd anadl, cysylltu ag eraill, a rhannu eu profiadau.

Mae'r lle hwn sy'n rhoi cymorth a chwmni wedi profi'n hanfodol, gan helpu i leddfu ynysigrwydd a chreu rhwydweithiau anffurfiol o gydgefnogaeth. Mae llawer o ofalwyr wedi disgrifio'r effaith fel un drawsnewidiol, gyda pherthnasoedd rhwng cyfoedion yn rhoi hwb i'w hyder, eu gwydnwch a'u lles emosiynol.

Nid cynnig rhyddhad yn unig yw nod y prosiect hwn; mae hefyd yn ymwneud ag ailddychmygu'r dyfodol. Mae ffocws ar lunio ar y cyd, gyda gofalwyr yn chwarae rhan flaenllaw mewn llunio sut y gallai, a sut y dylai, gofal cymunedol fod. Trwy gyfrwng y model hwb arloesi cymdeithasol a fabwysiadwyd gan Cwmpas, bu gofalwyr yn cydweithio ag ymarferwyr, ymchwilwyr, ac ysgogwyr newid, i lunio a phrofi ffyrdd newydd o gefnogi pobl sy'n gofalu.



**"Mae Cysylltu Gofalwyr wedi rhoi ffocws a chyfeiriad newydd i mi yn fy mywyd. Mae'r gefnogaeth yn amhrisiadwy. Mae wedi fy helpu gredu ynof fi fy hun. Mae wedi rhoi hwb creadigol i mi, ac wrth gysylltu â phobl o'r un anian, rwy'n gwybod nad wyf ar fy mhen fy hun. Mae fy nyfodol yn fwy optimistaidd."**

Nid yn unig y mae eu profiadau bywyd a'u dealltwriaeth yn cael eu gwerthfawrogi, maen nhw'n ganolog i ddylunio gwasanaethau.

Mae Tanio wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau artistig i helpu gofalwyr i fynegi eu realiti, ac yn rhy aml mae eu hanesion yn rhai nad oes gwrandawiad iddynt . Roedd rhyddhau cân wreiddiol 'Who Cares?' gan Cysylltu Gofalwyr ym mis Chwefror yn enghraifft ragorol o'r dull hwn.

Mae 'Who Cares?' yn gân wreiddiol a ysgrifennwyd gan y gofalwyr eu hunain, ac mae'r geiriau yn gofyn i asiantaethau a sefydliadau statudol wneud eu bywydau gofalu yn haws – wrth iddyn nhw ofalu, maen nhw'n meddwl tybed pwy sy'n gofalu amdanyn nhw. Mae eu hallbynnau creadigol yn arwain at fwy o gydnabyddiaeth, ac ymatebion mwy effeithiol ac empathig gan sefydliadau a rhanddeiliaid.

Mae Cysylltu Gofalwyr wedi helpu i sbarduno newid ystyrlon, nid yn unig wrth gefnogi gofalwyr unigol, ond hefyd wrth godi ymwybyddiaeth, herio rhagdybiaethau, a rhoi lleisiau gofalwyr wrth wraidd arloesi.

# Gwella hyder drwy llythrennedd yn y cyfryngau

**Yn Rhondda Cynon Taf, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag Ofcom i gyflwyno rhaglen beilot ar lythrennedd yn y cyfryngau, sydd â'r nod o helpu pobl i lywio'r byd ar-lein gyda mwy o hyder ac ymwybyddiaeth feirniadol.**

Gan weithio gyda sefydliadau lleol dibynadwy, sy'n cynnwys Cyngor RhCT, Age Connects Morgannwg, AbilityNet, Pobl a Gwaith, a Chymdeithas Tai Newydd, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyrraedd grwpiau sy'n aml wedi'u heithrio o ddysgu digidol, megis oedolion hŷn, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant, ac unigolion anabl.

Cyflwynom bum gweithdy rhyngweithiol, yn ymdrin â phynciau allweddol fel adnabod gwybodaeth anghywir, diogelu data personol, a deall sut i ymgysylltu'n ddiogel ac yn gyfrifol ar-lein. Roedd y sesiynau yn ymarferol, yn seiliedig ar drafodaeth, ac yn defnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn.

**88%**
**o gyfranogwyr wedi nodi dealltwriaeth sylweddol well o lythrennedd yn y cyfryngau**

Yn rhan o'n gwaith ar lythrennedd yn y cyfryngau, buom yn arwain rhywfaint o ymchwil gyda'r nod o gael dealltwriaeth o'r ffordd y mae casineb ar-lein tuag at fenywod yn effeithio ar bobl ifanc.

Roedd y gwaith hwn yn amserol oherwydd pan ddarlledwyd y rhaglen deledu 'Adolescence' yn ddiweddar, ysgogodd don o bryder ymhlith arbenigwyr diogelu, rhieni a phobl ifanc, gan godi cwestiynau difrifol ynghylch normaleiddio camdriniaeth mewn gofodau digidol.

Gan weithio gydag wyth grŵp ffocws a gynhaliwyd mewn colegau ledled ein rhanbarth, eisteddom i lawr gyda phobl ifanc rhwng 13 a 25 oed. Gofynnom iddyn nhw am yr hyn roedden nhw'n ei weld a'i brofi ar-lein. Yr hyn a ddilynodd oedd sgyrsiau gonest, ac anodd, weithiau, am realiti casineb ar-lein tuag at fenywod.

Siaradodd rhai am weld cynnwys niweidiol yn ddyddiol. Bu eraill yn rhannu straeon personol am gamdriniaeth, aflonyddwch, neu deimlo'n anniogel. Siaradwyd am y rhwystrau rhag adrodd, yr ofn o beidio â chael eich credu, a'r distawrwydd sy'n aml yn dilyn pan nad oes cymorth ar gael.

> **Mae'n wych siarad am y pethau hyn. Mae'n dilysu ein teimladau ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r hyn rydym yn ei brofi'n ddyddiol.**

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu strategaethau ymarferol sy'n ystyriol o bobl ifanc, yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal ac amddiffyn, a gweithio gydag addysgwyr i feithrin hyder wrth ymateb i ddatgeliadau a chreu amgylcheddau mewn ysgolion lle mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi.

# Datblygu tai dan arweiniad y gymuned



**Ers dros ddegawd, mae Cymunedau'n Creu Cartrefi, sef prosiect a ddarperir gan Cwmpas ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Sefydliad Nationwide, a Sefydliad Oak, wedi arwain twf y mudiad tai dan arweiniad y gymuned yng Nghymru.**

Dyma'r unig ganolfan deilwredig yn y wlad ar gyfer tai dan arweiniad y gymuned, ac mae ein tîm o gynghorwyr achrededig yn darparu cefnogaeth ac arweiniad arbenigol i grwpiau a sefydliadau cymunedol sydd wedi ymrwymo i greu cartrefi fforddiadwy, carbon isel, sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau lleol

Mae tai dan arweiniad y gymuned yn golygu bod pobl leol yn cymryd yr awenau i helpu i ddatrys problemau lleol penodol yn ymwneud â thai, a chreu cartrefi fforddiadwy, ac adeiladu cymunedau cryfach. Nid oes un model pur ar gael ar gyfer tai dan arweiniad y gymuned, ond mae pob un ohonynt yn ymgorffori egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol. Mae pob prosiect yn unigryw ac yn adlewyrchu anghenion a gwerthoedd y gymuned.

Yn rhy aml, mae tai yn rhywbeth a wneir i gymunedau, felly mae tai dan arweiniad y gymuned yn ymdrechu i roi'r offer i bobl osod y cartrefi priodol yn y mannau priodol, yn y cymunedau maen nhw'n eu caru.

**318**
**o gartrefi fforddiadwy dan arweiniad y gymuned yn cael eu datblygu ar hyn o bryd**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm wedi cefnogi 47 o grwpiau cymunedol ledled Cymru i ddatblygu eu prosiectau tai dan arweiniad y gymuned. Yn ogystal â'r 318 o gartrefi fforddiadwy dan arweiniad y gymuned sydd ar y gweill, rydym wedi derbyn 25 o ymholiadau newydd gan unigolion a grwpiau sydd â diddordeb mewn dechrau eu mentrau tai dan arweiniad y gymuned eu hunain.



**"Rydym wedi cyflawni cymaint ac wedi cael cefnogaeth lawn gan Cwmpas ym mhob agwedd ar gychwyn y prosiect hwn. Mae eu hamynedd, eu dealltwriaeth a'u hymrwymiad wedi bod yn anhygoel."**

# Adeiladu cartrefi a dyfodol

> **Rydym wedi gweithio gyda Cwmpas i greu ffordd newydd o fyw lle mae oedolion ifanc ag anableddau dysgu yn gallu ffynnu a chael llais, dewis a rheolaeth wirioneddol dros ble maen nhw'n byw.**

Mae Dream Home Swansea yn brosiect tai arloesol dan arweiniad y gymuned a ddyluniwyd ar y cyd â phobl ifanc ag anableddau dysgu a'u rhieni a'u gofalwyr.

Gyda chefnogaeth gan Cwmpas, mae Dream Home Swansea yn anelu at drawsnewid y cam o symud o fyw gartref i fyw'n annibynnol, gan roi mwy o lais, dewis a rheolaeth i'r bobl ifanc ynghylch ym mhle a gyda phwy maen nhw'n byw. Eu dyhead yw creu cartrefi newydd lle gall y bobl ifanc fyw bywydau iach a bodlon mewn amgylchedd cefnogol, ac maent wedi sefydlu cwmni cydweithredol i wneud hynny.

Mae stori Elin, sy'n 26 oed, yn mynd at wraidd yr angen am Dream Home Swansea. Roedd Elin wedi gweld ei chwaer yn mynd drwy'r broses gyffrous o symud i ffwrdd i'r coleg, ac roedd hithau eisiau gwneud yr un peth. Cyflawnodd y dymuniad hwn pan gafodd le yng Ngholeg Elidyr yn Llanymddyfri, a bu'n byw yno'n hapus am bum mlynedd. Pan ddaeth yr amser i drafod ei dyfodol, roedd Elin eisiau aros yn annibynnol ond gan fyw'n agosach at ei gwreiddiau yn Abertawe, ei thref enedigol. Ond roedd diffyg hyblygrwydd o ran yr opsiynau tai a oedd ar gael, ac nid oeddent yn caniatáu iddi gwrdd â chyd-letywyr cyn symud i mewn.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae Elin yn dal i fyw yng nghartref y teulu, ond mae'n llawn cyffro o fod yn rhan o greu datblygiad cyntaf Dream Home Swansea. Elfen hanfodol o Dream Home Swansea yw'r grŵp lle mae darpar breswylwyr yn meithrin cyfeillgarwch ac yn datblygu sgiliau byw'n annibynnol.

Mae'r grŵp hwn o gyfoedion hwn yn ganolog i'r prosiect o ran creu lle iach a diogel i fyw ynddo, sydd wedi'i gynllunio yn dda, a fydd yn gwella ansawdd eu bywyd a'u lles. Wrth eu gwneud yn ganolog i'r prosiect, maent yn datblygu eu rhwydwaith cymorth gan gyfoedion eu hunain, ac yn sicrhau bod eu cartref wedi'i drefnu ac yn addasadwy i'w hanghenion newidiol unigol.



# Cefnogi mentrau Cymraeg cymunedol

**Mae prosiect Perthyn, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno gan Cwmpas yng ngogledd-orllewin Cymru ynghyd â Planed yn y de-orllewin, yn cefnogi cymunedau mewn ardaloedd â lefelau uchel o berchnogaeth ail gartrefi, gan gynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Ynys Môn, Gwynedd, a Chonwy.**

**26**
**o grwpiau yn cael eu cefnogi i gryfhau ein cymunedau Cymraeg lleol**

Sefydlwyd Perthyn yn 2022, ac mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau i ddarparu cefnogaeth gynnar sy'n helpu i oresgyn rhwystrau a meithrin datblygiad mentrau cymdeithasol newydd, cwmnïau cydweithredol, tai dan arweiniad y gymuned, ac Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, lle mae'r Gymraeg yn chwarae rhan ganolog

Mae Perthyn yn cefnogi amcanion y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, a strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, gyda gweledigaeth ar gyfer cymunedau bywiog a chynaliadwy lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd, wedi'u hategu gan economi leol gref.

Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau i ysbrydoli syniadau a darparu cefnogaeth ar gyfer creu a thyfu mentrau cynaliadwy sy'n fuddiol i bawb. Rydym hefyd yn cydweithio â phrosiectau cymunedol sefydledig i helpu i ddatblygu ac ehangu syniadau newydd, gan gryfhau eu heffaith a'u cyrhaeddiad.

Yn rhy aml, mae asedau cymunedol hanfodol mewn perygl o gael eu colli, felly mae Perthyn yn cynorthwyo grwpiau lleol i ddod â'r asedau hyn yn ôl i berchnogaeth a defnydd cymunedol wrth ddatblygu prosiectau a mentrau cymunedol.



**"Mae'r cyllid wedi'n galluogi i gael cymorth proffesiynol gyda'r arolygon o'r hen gapel, ac ailagor yr adeilad ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Heb gyllid Perthyn, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl."**

# Diogelu asedau cymunedol

> Mae cyllid Perthyn wedi bod yn gymorth mawr wrth ddiogelu Ysgol Cribyn rhag cael ei cholli fel ased cymunedol, a'i datblygu'n ganolfan addysg leol a chartref fforddiadwy.

Ym mhentref gwledig Cribyn, Ceredigion, roedd cau'r ysgol gynradd leol yn 2008 wedi gadael bwlch yn seilwaith y gymuned a bywyd cymunedol. I ymateb i hynny, ffurfiwyd Cymdeithas Clotas gan breswylwyr lleol, gyda'r weledigaeth o brynu'r adeilad segur a'i drawsnewid yn adnodd cymunedol mawr ei angen. Erbyn 2023, roeddent wrthi'n sefydlu'n Gymdeithas Budd Cymunedol er mwyn cefnogi'r nod hwn.

Heb unrhyw gyfleusterau cyhoeddus eraill yn yr ardal, a phrinder tai fforddiadwy i deuluoedd ifanc, roedd y prosiect eisiau creu canolfan ddysgu a gweithgarwch cymunedol fywiog, ynghyd ag addasu rhan o'r adeilad yn gartref fforddiadwy i deulu lleol. Mae'r fenter yn mynd i'r afael â diboblogi gwledig, ynysu cymdeithasol, a'r angen i ddiogelu'r Gymraeg wrth feithrin cymuned leol gryfach a mwy cysylltiedig.

Gyda chefnogaeth cyllid gan Perthyn, roedd y grŵp yn gallu cyflogi swyddog datblygu rhan-amser, cael mynediad at ymgynghoriaeth bensaernïol, datblygu gwefan, hyrwyddo cynnig cyfranddaliadau cymunedol, a llunio deunyddiau marchnata a gweinyddu allweddol. Yn ogystal, cawsant arweiniad arbenigol gan dîm Cymunedau'n Creu Cartrefi Cwmpas ar gyfer llunio elfen dai'r prosiect.

Er ei fod yn dal i gael ei ddatblygu, mae'r prosiect eisoes wedi gosod sylfeini cryf ar gyfer adfywio dan arweiniad y gymuned. Mae Cymdeithas Clotas wedi uno trigolion o amgylch gweledigaeth gyffredin, gan greu momentwm ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Wrth ailddychmygu'r hen ysgol fel lle i fyw yn ogystal â dysgu, mae'r gymuned yn adennill lle gwerthfawr ac yn buddsoddi yn ei dyfodol ei hun.



# Gyrru newid cadarnhaol

Mae ein rhaglenni dysgu a datblygu yn cefnogi twf y sector a'i arweinwyr ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'n harbenigedd a'n hamrywiaeth o wasanaethau ymgynghori sydd wedi'u cynllunio i yrru arloesedd wrth gefnogi trawsnewid digidol, gwerth cymdeithasol, cydweithredu a chyd-ddylunio, ymchwil, gwerthuso, astudiaethau dichonoldeb a datblygu polisïau.



# Hyrwyddo arferion digidol da

**Caiff Newid ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno gan Cwmpas, CGGC a ProMo Cymru. Mae'n hyrwyddo arferion digidol da ar draws y trydydd sector yng Nghymru wrth ddarparu hyfforddiant, cymorth a gwybodaeth.**

Yn rhan o'n gwaith trawsnewid digidol drwy raglen Newid, cynhaliom brosiect peilot bach â ffocws, a gynlluniwyd i gefnogi pum sefydliad bach i sefydlu presenoldeb digidol cryfach. Cafodd y sefydliadau hyn eu paru â datblygwr i greu gwefan dempled broffesiynol â phum tudalen, wedi'i theilwra ar gyfer eu hanghenion. Nid dim ond creu'r gwefannau oedd y nod, ond hefyd rhoi'r sgiliau a'r hyder i'r cyfranogwyr eu rheoli'n annibynnol.

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, cynhaliom sesiynau hyfforddiant ymarferol a gafodd eu recordio hefyd, gan alluogi'r cyfranogwyr i wylio'r cynnwys eto pryd bynnag y bo angen.

**96%**
**y sgôr boddhad trawiadol a ddyfarnwyd i'n cefnogaeth gan y cyfranogwyr**

Gyda'n cefnogaeth, bellach mae gan bob un o'r pum sefydliad wefannau sy'n fwy proffesiynol yn weledol a hefyd yn haws eu defnyddio. Mae'r llwyfannau digidol gwell hyn wedi cynyddu eu gwelededd, eu gwneud yn fwy hyderus wrth ymgysylltu â chyllidwyr a chleientiaid, ac wedi gwella eu hygrededd yng ngolwg rhanddeiliaid. Yn ogystal, mae'r cyfranogwyr wedi datblygu sgiliau digidol hanfodol, megis gwella eu gwelededd i beiriannau chwilio, a hanfodion cynnal a chadw gwefan. Yn flaenorol, roedd llawer o'r cyfranogwyr wedi credu bod y sgiliau hyn y tu hwnt i'w cyrraedd, oherwydd cyfyngiadau o ran cyllid, a diffyg arbenigedd mewnol.



> **"Ni fyddem wedi gallu fforddio hynny fel sefydliad nid-er-elw."**

# Creu effaith gadarnhaol y tu hwnt i elw

**Mae gwaith Cwmpas ym maes gwerth cymdeithasol yn cefnogi sefydliadau i sicrhau gwerth cymdeithasol wrth wraidd eu prosesau gwneud penderfyniadau, gan symud y tu hwnt i gydymffurfedd ac adrodd ar werth cymdeithasol a'i sefydlu'n rhan graidd o'u diwylliant a'u diben.**

Rydym wedi gweithio'n agos gyda staff a thimau i ddylunio ffyrdd o fesur yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, yn aml gan gyfuno safonau cenedlaethol â mesurau lleol neu benodol i'r sector, fel bod y data a gesglir yn adlewyrchu profiadau bywyd go iawn ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

> **Bellach, mae gennym yr offer ar waith i wneud y mwyaf o'n heffaith gymdeithasol ar gyfer ein cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.**

Mae ein gwaith gwerth cymdeithasol yn canolbwyntio ar gadw pethau'n ymarferol, gan sicrhau bod yr hyn a fesurwn yn ddefnyddiol, yn hawdd ei drin, ac yn arwain at weithredu. Yn ogystal â chasglu data, rydym yn meithrin dealltwriaeth gyffredin ynghylch beth yw llwyddiant, ac yn helpu pawb sy'n gysylltiedig i weld sut maen nhw'n cyfrannu ato. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn ar draws llawer o sectorau gan gynnwys tai, adeiladu, addysg ac iechyd, gan helpu'n aml i bontio'r bwlch rhwng timau caffael, comisiynwyr a darparwyr.

Un enghraifft o'n gwaith yn y maes hwn yw'r ffordd y cefnogom Gyngor Sir Gâr i adolygu a chryfhau ei ddull o ymdrin â gwerth cymdeithasol ym meysydd caffael, polisi ac ymarfer. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar weithgarwch gwirio synnwyr wrth gyfeirio at ddeddfwriaeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Roedd hefyd yn gyfle i weld ac adolygu'r gwaith gwych sydd eisoes yn cael ei wneud gan yr awdurdod.

Buom yn ymgysylltu â dros 85% o staff arweinyddiaeth y Cyngor ac yn adolygu dogfennau pwysig er mwyn deall sut roedd gwerth cymdeithasol yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio ar draws y Cyngor. Gwelsom ymrwymiad cryf i werth cymdeithasol mewn theori, ond roedd y ffordd y cafodd ei roi ar waith yn amrywio rhwng adrannau, sy'n gyffredin mewn cynghorau sy'n ceisio arwain y ffordd. Roedd llawer o dimau yn gwneud gwaith gwych, ond nid oedd dull cydgysylltiedig ar draws y sefydliad cyfan.

Roedd cryfderau Sir Gâr yn cynnwys ffyrdd creadigol o brynu nwyddau a gwasanaethau sy'n cefnogi busnesau lleol, prosiectau cymunedol mawr fel Pentre Awel, a mentrau cryf yn ymwneud ag economi gylchol. Fodd bynnag, mae rhai heriau'n parhau, yn enwedig o ran cael diffiniadau clir, olrhain data, a mesur effaith hirdymor.

Gwnaethom nifer o argymhellion ynghylch hyfforddiant staff ac aliniad ehangach â gwerth cymdeithasol o ran cynlluniau corfforaethol. Fodd bynnag, roedd llawer o argymhellion yn cymeradwyo'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn cael ei wneud.

Rydym wedi helpu i newid y safbwynt ar werth cymdeithasol, o fod yn rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu at gaffael yn unig, i fod yn elfen hanfodol sy'n gyrru cryfder economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar draws y sefydliad.

# Dod â chymunedau at ei gilydd i ddatrys problemau

**Mae'r cynllun Dechrau Rhywbeth Da gan Cwmpas yn ddull o ddatrys problemau ar y cyd sy'n dod â phobl at ei gilydd i lunio syniadau ffres ar gyfer y problemau sydd o'r pwys mwyaf iddynt. Boed mewn cymunedau, ysgolion, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, neu unrhyw fath o sefydliad, mae Dechrau Rhywbeth Da yn creu lle ar gyfer cydweithredu, creadigrwydd, a chamau ymarferol.**

Mae Niwbwrch, sef Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig ar arfordir deheuol Ynys Môn, yn cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Yn 2024, bu tîm Dechrau Rhywbeth Da yn cynorthwyo CNC, Cyngor Sir Ynys Môn, a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i gynnal hacathon cymdeithasol, gan ddod â phobl ynghyd i archwilio datrysiadau a chryfhau cydweithredu o ran mewn mynediad a thrafnidiaeth yn yr ardal a'r cyffiniau

**561**
**o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau hacathon**

Daeth yr hacathon â chymysgedd o leisiau at ei gilydd, gan gynnwys preswylwyr lleol, perchnogion busnesau bach, sefydliadau cymunedol, a chynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus.

Daeth 80 o bobl ynghyd o amgylch yr un bwrdd, nad ydynt yn aml yn cael y cyfle i gwrdd, er mwyn helpu i gyd-ddylunio syniadau ymarferol ar gyfer gwella trafnidiaeth a mynediad i Niwbwrch.

Esblygodd yr hyn a ddechreuodd fel diwrnod o ddatrys problemau ar y cyd i fod yn fudiad cydweithredol cynaliadwy. Mae ein dull yn golygu nad polisi yn unig sy'n llunio datrysiadau, ond pobl, wedi'u huno gan ymddiriedaeth, deialog, ac ymrwymiad a rennir i wneud y lle maen nhw'n ei garu yn fwy hygyrch a gwydn ar gyfer cenedlaethau i ddod.



**"Daeth yr hacathon â momentwm a lwyddodd i ail-fframio'r broblem yn llwyr. Daethpwyd â pobl ynghyd nad ydynt fel arfer yn cael cyfle i gwrdd, i weithio gyda'i gilydd mewn timau. Gwnaeth hynny ddynoli a lledaenu pethau."**

# Datblygu cenhedlaeth newydd o arweinwyr cymdeithasol

**Mae Arweinwyr Cymdeithasol Cymru yn fenter ar gyfer datblygu arweinyddiaeth gyda'r nod o gyfoethogi'r sector cymdeithasol yng Nghymru. Caiff ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac mae'n bartneriaeth rhwng Cwmpas, Arweinyddiaeth Gymdeithasol Clore, a CGGC.**

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i gefnogi mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol ar bob cam o'u taith arweinyddiaeth, gyda ffocws ar rymuso'r trydydd sector i ffynnu. Mae'n ymgysylltu'n weithredol ag unigolion o gefndiroedd amrywiol, ac yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol, cydweithredu, ac arweinyddiaeth gynhwysol

**122**
**o arweinwyr wedi cymryd rhan yn rhaglen Arweinwyr Cymdeithasol Cymru**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prosiect wedi cyflwyno tair rhaglen Arweinwyr Cymunedol a dwy raglen Arweinwyr Cenedlaethol, gan gefnogi arweinwyr yn y sector cymdeithasol ar bob cam o'u taith arweinyddiaeth.

Roedd y rhaglenni Arweinwyr Cymunedol, a gynhaliwyd dros gyfnod o chwe mis, yn cyfuno sesiynau ar-lein a sesiynau wyneb i wyneb yng Nghasnewydd, Wrecsam ac Abertawe, gan ddod ag arweinwyr ynghyd i feithrin galluedd, cryfhau eu cymunedau, a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r rhaglenni hyn, sy'n agored i arweinwyr ar bob lefel o brofiad, wedi cynnwys 77 o gyfranogwyr hyd yn hyn

Roedd y rhaglen Arweinwyr Cenedlaethol yn cynnwys dwy raglen ar-lein a oedd yn para pedwar mis, sef rhaglen Arweinwyr Newydd a rhaglen Arweinwyr Profiadol, ac roedd y rhain wedi cynnwys 45 o arweinwyr ychwanegol. Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg drwy'r rhaglen yn cynnwys sgiliau arweinyddiaeth gwell a datblygu hunanymwybyddiaeth a hyder

> **Mae wedi rhoi mwy o hyder i mi yn fy arweinyddiaeth, a fydd yn fuddiol i'm sefydliad gan y gallaf gyfrannu mwy at drafodaethau a phenderfyniadau.**

Siaradodd y cyfranogwyr am ddysgu sut i gyfathrebu'n fwy effeithiol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd cymhleth, a llunio strategaethau effeithiol, a chefnogi datblygiad timau.

Bu nifer ohonynt yn disgrifio sut roedd cael y ddealltwriaeth ffres hon wedi'u hysbrydoli i ymgymryd â chyfrifoldebau ehangach, a chamu'n hyderus i rolau arweinyddiaeth estynedig. Roedd y cyfle i bwyllo a myfyrio yn amhrisiadwy, gan helpu arweinwyr i ailalinio eu blaenoriaethau, ailystyried eu dulliau, a rhoi pwyslais newydd ar les personol.

Yn fwyaf pwerus, efallai, oedd cael rhaglen i feithrin cymuned fywiog o gyfoedion. Cafodd yr arweinwyr gwmnïaeth a sicrwydd gwirioneddol wrth gysylltu ag eraill a oedd yn rhannu heriau a dyheadau tebyg. Lleddfwyd teimladau o ynysigrwydd gan y cysylltiadau hyn, a daethant hefyd ag ysbrydoliaeth trwy straeon a phrofiadau cyffredin. Mae llawer o'r cyfranogwyr yn edrych ymlaen at gynnal y cysylltiadau hyn a pharhau â'u datblygiad.

# Diolch

**Cymunedau sydd wrth wraidd popeth y mae Cwmpas yn ei wneud.**



**Rydym wedi ymrwymo i gryfhau ein cymunedau wrth sicrhau bod lleisiau lleol yn cael eu clywed ar faterion sy'n bwysig i bobl. Rydym yn ymdrechu i ddarparu mynediad cyfartal at gyfleoedd i bawb, a chadw ac ailfuddsoddi cyfoeth a gynhyrchir yn lleol er mwyn gwneud y lleoedd rydym yn byw ynddynt ac yn eu caru yn hapusach, yn iachach ac yn fwy cyfartal.**

Ni fyddai ein gwaith yn bosibl heb gryfder a chefnogaeth ein cymuned ehangach.

Rydych chi'n chwarae rhan hanfodol wrth ein helpu i ysgogi arloesedd, eiriol dros newid, a thyfu mudiad sydd wedi ymrwymo i adeiladu cymdeithas decach, wyrddach a mwy cyfartal.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i'n partneriaid a'n comisiynwyr yn y sector cyhoeddus am eu cefnogaeth barhaus wrth gryfhau'r seilwaith craidd sy'n sylfaen i'r rhwydwaith o fusnesau cymdeithasol a democrataidd ledled Cymru. Mae eu hymrwymiad hefyd yn sicrhau y gall pobl a chymunedau ledled Cymru gael mynediad diogel at dechnolegau digidol a gwasanaethau hanfodol – fel nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

Rydym hefyd yn estyn ein diolch twymgalon i'n cymuned ehangach o gyllidwyr, cefnogwyr, cleientiaid, aelodau a phartneriaid sy'n ein helpu i gyrraedd ymhellach i mewn i gymunedau, casglu tystiolaeth hanfodol ar gyfer newid, a helpu i lunio gwasanaethau a pholisïau arloesol sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer newid economaidd cynaliadwy a systemig.

Os ydych chi'n teimlo wedi'ch ysbrydoli gan yr hyn rydych chi wedi'i ddarllen, rydym yn eich annog i estyn allan a darganfod sut gallwch chi ymuno â'r mudiad hwn dros gymdeithas decach a mwy cyfartal.

P'un a oes gennych chi ddiddordeb mewn dod yn bartneriaid i ni, cefnogi ein cenhadaeth, neu helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith yn eich cymuned, byddem wrth ein bodd i glywed gennych.

Dewch i ni wneud i newid cadarnhaol ddigwydd, gyda'n gilydd.

Michael Cowley

**Pennaeth Datblygu Busnes Cwmpas**

Sganiwch isod er mwyn dysgu rhagor am Cwmpas:

Cwmpas
Sparc
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

0300 111 5050

info@cwmpas.coop

www.cwmpas.coop

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, megis print bras neu Braille, ar gael ar gais. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac yn anelu at ddarparu safon gyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith.